

# amserbeibl

## Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



### Gwersi Beiblaidd o lyfr Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

#### Gwers 1 Yn y Dechrau - Duw yn creu y byd.



DARLLENWCH  
Genesis 1: 1-10

Ydych chi erioed wedi edrych i fyny i'r awyr ar noson glir, oer a meddwl pam y cafodd y miliynau o sêr a'r planedau eu creu? Ydych chi wedi meddwl pam y mae pobl ac anifeiliaid yn byw yn y byd? Mae'r atebion i'w gweld yn llyfr cyntaf y Beibl, Genesis.

Mae "Genesis" yn golygu "Dechreuadau"



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Genesis 1: 1

**C** Pa adnod yn y Darlleniad o'r Beibl sy'n sôn am y dechreuad?

**C** Sut olwg oedd ar y byd yn y dechrau?

**C** Ar ddiwrnod cyntaf y creu, beth ddywedodd Duw? Ticiwch yr ateb cywir.

"BYDDED ...

**"DŴR"**

**"HEULWEN"**

**"BYWYD"**

**"GOLAU"**

**C** Ysgrifennwch yr adnod sy'n mynd gyda'r llun isod.


1

1

1

2

## CHWILAIR

Mae wyth gair o'r Darlleniad o'r Beibl wedi'u cuddio yn y chwilair. Maen nhw'n rhedeg i fyny, i lawr, ar draws ac am yn ôl. Rydym wedi rhoi llythyren gyntaf pob gair i'ch helpu.

Llanwch y bylchau a rhowch gylch am y geiriau yn y CHWILAIR.

Mae'r ddau gyntaf wedi'u gwneud i'ch helpu.






H	W	Y	R	G	T	1	H	W	Y	R			
Th	O	L	S	O	U	2	G	O	L	E	U	N	I
R	T	W	C	L	A	3	LL						
A	I	S	R	E	I	4	D						
E	R	O	B	U	S	5	B						
A	C	N	I	N	Y	6	T						
D	Y	Dd	B	I	LI	7	D						
						8	N						

6

**C** Ysgrifennwch, YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN, sut y gwnaeth Duw y tir a'r môr. (adnodau 9 a 10)

2

**C** Ysgrifennwch y rhain yn y drefn y gwnaeth Duw nhw.

				
nos	Weithiau yn y Beibl, fe welwch chi'r gair "ffurfafen" sy'n golygu "awyr".	dydd	môr	tir
1	2	3	4	5

5

Mae'n rhyfeddol meddwl bod Duw wedi gwneud y ddaear, y bydysawd a ni i gyd. Ond, er bod miliynau o bobl yn y byd, mae Duw yn nabod pob un ohonon ni. Efallai'ch bod chi'n teimlo'n fach iawn o'i gymharu â chread enfawr Duw ond mae pawb ohonom yn arbennig iawn iddo. Mae Duw wedi'ch gwneud chi ac mae'n eich caru chi. Beth am ddweud gweddi i ddiolch iddo? Mae'n dweud yn y Beibl bod Duw wedi gwneud y byd mewn chwe diwrnod.

**C** Ysgrifennwch ddiwedd adnod 10 i ddangos beth oedd ymateb Duw i'w waith.

2


**Gwers 2** Yn y Dechrau - Duw yn creu dyn.DARLLENWCH  
Genesis 1: 20-31

Ydych chi erioed wedi meddwl faint o rym sy'n ddigon i wneud i losgfynydd ffrwydro neu pa mor gryf y mae'n rhaid i'r gwynt fod cyn troi'n gorwynt a sgubo popeth sydd yn ei lwybr? Mae'n anodd i ni ddychmygu'r pethau hyn. Gymaint mwy oedd y grym rhyfeddol a wnaeth y byd yr ydyn ni'n byw ynddo, **GRYM Y DUW HOLLALLUOG**. Rydym yn darllen am nerth Duw yn creu'r byd yn Genesis. Rydym yn ei weld yn ei holl ogoniant yn creu anifeiliaid ac yn, yn fwy rhyfeddol byth, yn creu'r bobl gyntaf.

ADNOD  
ALLWEDDOL  
Genesis 1: 27

**C** Pa ddau o'r creaduriaid hyn a wnaeth Duw gyntaf?

Ysgrifennwch eu henwau yn y blwch.



\_\_\_\_\_ ac \_\_\_\_\_

2

**C** Ar ôl gwneud y creaduriaid hyn, bendithiodd Duw nhw. Beth ddywedodd e?

\_\_\_\_\_

2

**C** Yn adnodau 24 a 25 rydyn ni'n cael gwybod am dri pheth a wnaeth Duw.

Beth oedd y rhain?

Gwnaeth Duw

Gwnaeth Duw

Gwnaeth Duw

3

Does dim rhyfedd ei fod yn gweld popeth a wnaeth yn dda iawn.

**C** Pan fydd dylunwyr am greu rhywbeth newydd, maen nhw'n gwneud patrwm.

Beth ddefnyddiodd Duw fel patrwm ar gyfer creu dyn? (Darllenwch adnod 27)

\_\_\_\_\_

2

**C** Pwy gafodd ei roi gan Dduw i ofalu am Ei greadigaeth? \_\_\_\_\_

2

**C** Beth ddywedodd Duw

wrth fendithio'r dyn?

(Darllenwch adnod 28)

\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

2

**C** Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pa fath o fwyd yr oedd y pobl a'r anifeiliaid yn mynd i'w fwyta. (Darllenwch adnodau 29 a 30)

Pobl

Anifeiliaid

3

**C** Faint o amser gymerodd Duw i orffen ei greadigaeth? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.

**mis**

**10 diwrnod**

**6 diwrnod**

**wythnos**

**pythefnos**

**blwyddyn**

1

Mae'n siwr bod Duw wedi cael amser ardderchog yn creu'r cannoedd o wahanol anifeiliaid! Ond creadigaeth fwyaf Duw oedd dyn. Anadlodd Duw anadl bywyd yn Adda ac fe ddaeth yn enaid byw! (Genesis 2: 7) Roedd hyn yn gwneud Adda'n wahanol i bob peth byw arall. Plannodd Duw ardd hyfryd i Adda gael byw ynddi ac fe wnaeth y wraig gyntaf yn gwmni iddo. Daeth Duw ei hunan i lawr i siarad â nhw a cherdded gyda nhw yn yr ardd. Mae'n siwr bod hynny'n brofiad dymunol iawn i Adda ac Efa!

**C** Beth oedd enw gwraig Adda? (Darllenwch Genesis 3: 20)

1

Efallai'ch bod chi wedi treulio llawer o amser yn gwneud rhywbeth arbannig iawn? **Sut oeddech chi'n teimlo pan oedd pobl yn canmol eich gwaith?** Mae'n siwr eich bod yn falch. Mae Duw yn falch pan fyddwn ni'n canmol ei waith e. Mae'r ateb i'r pos hwn yn dangos rhywbeth y mae'r Beibl yn dweud wrthym am ei wneud.

**C** Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau yn y lluniau.



\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

2

Duw sydd wedi gwneud y bydysawd. Gallwch weld tystiolaeth o'i nerth a'i ogoniant ym myd natur o'n cwmpas. Does dim nerth mwy na hyn – ef sydd wedi gwneud popeth!

**Mae Duw wedi'ch gwneud chi yn wahanol i'r anifeiliaid.**

Y tro nesaf yr edrychwch chi yn y drych, cofiwch ganmol Duw!



DARLLENWCH  
Genesis 2: 15-17  
a 3: 1-13



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Genesis 3: 3

### Gwers 3 Yn y dechrau – Pethau'n mynd o chwith!

Pe bai ffrind i chi'n rhoi anrheg ar y bwrdd ac yn dweud wrthoch chi am beidio â'i hagar, tybed am faint o amser allech chi osgoi'r demtasiwn i agor y parcel? Y funud y byddwch chi'n agor yr anrheg, mae'n difetha'r syrpreis. Dyna ddarlun o sut y daeth pechod i'r byd perffaith yr oedd Duw wedi'i wneud.

**Bod yn anufudd i orchmynion Duw yw pechod.**

**C** Yn y Darlleniad o'r Beibl, rydyn ni'n dysgu bod Duw wedi rhoi popeth yr oedd arnyn nhw ei angen i Adda ac Efa. Ond rhoddodd un gorchmyn pwysig iddynt. Beth oedd hwnnw?

2

**C** Rhowch gylch o gwmpas yr atebion cywir.

Pe bai Adda ac Efa'n bwyta ffrwyth y goeden, dywedodd Duw y bydden nhw ...

**Yn sâl** **Yn gorfod gadael** **Yn marw** **Yn cael eu cosbi**

Pe bai Adda ac Efa'n bwyta o ffrwyth y goeden, dywedodd y sarff y bydden nhw ...

**Ddim yn marw** **Yn drist** **Yn cael eu cosbi** **Yn sâl**



2

**Gelyn Duw, Satan, oedd yn ymddangos fel sarff**

**C** Beth mae Genesis 3: 1 yn ei ddweud am y sarff?

Fel y gwrandawodd Efa ar y sarff, sylwodd ar nifer o bethau da am y ffrwyth a chafodd ei pherswadio i'w fwyta.

**C** Beth oedd y pethau da?

1
2
3



3

**C** Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir neu'n anghywir:

Adda oedd y cyntaf i gymryd darn o'r ffrwyth.

Fe sylweddolôn nhw eu bod nhw'n noeth.

Fe wnaethon nhw wniö dail ffigysbren at ei gilydd i wneud dillad iddyn nhw eu hunain.

Roedd y ddau yn hapus iawn.

4

**C** Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i gael gwybod beth wnaeth Adda ac Efa pan glywsôn nhw Duw yn cerdded yn yr ardd.

**I O C D D U / N Y / Y / D O E C**

\_\_\_\_\_ / \_\_\_\_ / Y / \_\_\_\_\_.

3

**C** Galwodd Duw arny'n nhw am eu bod yn cuddio. Beth ddywedodd Adda wrth Dduw?

2

**C** Beth oedd esgus Adda?

**C** Ar bwy roddodd Efa'r bai?

2

Pan fyddwch chi'n gwneud rhywbeth drwg, fyddwch chi weithiau'n gwneud esgusodion neu'n rhoi'r bai ar rywun arall? Dyna beth wnaeth Adda ac Efa.



Rydyn ni i gyd yn gwneud pethau drwg, ond ddylen ni ddim gwneud esgusodion na dweud celwydd i guddio hynny. Allwn ni ddim cuddio ein pechod oddi wrth Dduw. Mae Duw'n gwybod amdano. Mae Duw am i ni edifarhau a throi'n cefn ar bechod fel y gall ef faddau i ni!

Dywedodd Duw wrth Adda bod y ddaear wedi'i difetha oherwydd ei bechod ef ac y byddai drain ac ysgall yn tyfu. Roedd rhaid i Adda ac Efa adael yr ardd braf ac roedd rhaid i Adda weithio'n galed iawn i gael bwyd.

Gan eu bod nhw wedi pechu, doedden nhw ddim yn hapus yng nghwmni Duw ac, un diwrnod, byddai'n rhaid iddyn nhw farw. Hefyd, oherwydd eu pechod, byddai pawb yn cael eu geni â natur bechadurus.

**Chwiliwch am Rhufeiniaid 5: 12 yn eich Beibl.**



DARLLENWCH  
Genesis 4: 1-16



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Ioan 14: 6

## Gwers 4 Yn y Dechrau – Dilyn ffordd Duw.

Os byddwch chi'n mynd ar daith i rywle dieithr, bydd angen i chi fod yn siwr o'r ffordd cyn mynd. Gallwch edrych ar fap neu holi rhywun sydd wedi bod o'r blaen. Os ewch chi gan ddilyn eich trwyn a gobeithio'r gorau, byddwch yn siwr o fynd ar goll!




**Mae yna ffordd arbennig i fynd at Dduw. Ei ffordd Ef.**  
Ceisiodd Cain blesio Duw yn ei ffordd ei hunan..

**C** Beth oedd gwaith Abel a Cain?

2

## YSGOL EIRIAU

- Gofynnodd yr Arglwydd i Cain, "Pam rwyd ti wedi \_\_\_\_\_?"
- Daeth Cain ac Abel ag \_\_\_\_\_ i'r Arglwydd.
- B \_\_\_\_\_ ei ddefaid oedd offrwm Abel.
- Dywedodd Cain wrth Abel, "Gad inni fynd i'r \_\_\_\_\_."
- Dywedodd yr Arglwydd wrth Cain y byddai'n rhaid iddo \_\_\_\_\_ pechod



5

**C** Pa offrwm oedd wrth fodd Duw?

1

**C** Roedd Cain yn ddig iawn wrth Dduw am iddo wrthod ei offrwm.

**Gorffennwch y llythrennau hyn i weld beth wnaeth Cain wedyn.**

**LLAABDODD EI FFRAWD**

2

**C** Beth oedd cosb Cain? (Darllenwch adnod 12)

2

**C** Dywedodd Cain na allai ddioddef ei gosb.

1

2

3

4

**Darllenwch adnodau 13 ac 14 ac ysgrifennu ei bedwar rheswm.**

4

Cynigiodd Abel oen yn offrwm ac fe blesiodd hynny Dduw gan ei fod yn ddarlun o'r Arglwydd Iesu. Iesu yw Oen Duw a roddodd ei hunan ar y groes i gymryd pechodau'r byd. Heddiw, mae llawer o bobl yn ceisio plesio Duw yn eu ffordd eu hunain ond mae'r Beibl yn dweud mai dim ond **UN Ffordd** sydd o blesio Duw. Mae'n rhaid i ni ofyn iddo faddau i ni am bob drwg yr ydym wedi'i wneud. Rhaid i ni ymddiried yn yr Arglwydd Iesu sy'n barod i faddau i ni. Am iddo ei offrymu ei hunan ar y groes, mae Duw yn gallu maddau ein pechod ni.

**Mae'r rhai sy'n ymddiried yn Nuw yn cael maddeuant!**

**C** Ysgrifennwch ar yr arwydd i ble'r aeth Cain i fyw.



1

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol i gael gwybod sut i fynd yn ôl at Dduw.

3

Roedd Abel yn credu ei fod yn bechadur a bod arno angen offrymu gwaed oen er mwyn cael maddeuant gan Dduw. Doedd Cain ddim yn cydnabod ei fod yn bechadur ac felly ni ddaeth at Dduw yn ffordd Duw.

**Cafodd Abel ei dderbyn oherwydd ei ffydd yn Nuw. Darllenwch Hebreaid 11: 4.**

**cyfanswm**

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120